**Gofynion ychwanegol mewn perthynas â cheisiadau am gymeradwyo gazebos a strwythurau gardd eraill ar gyfer Priodasau a Phartneriaethau Sifil.**

**Mae'r canlynol wedi cael ei gytuno fel canllaw ar gyfer ymgeiswyr ac i reolwyr sy’n archwilio eiddo arfaethedig:**

1. Rhaid i unrhyw strwythur gazebo neu ardd fod yn weddus ac urddasol.

2. Mae'n rhaid i'r strwythur fod yn barhaol ac ni ellir ei symud, a bod â sylfaen brics, pren, carreg neu goncrit a tho wedi’i gefnogi gan bileri neu waliau brics, cerrig, concrid, haearn bwrw neu bren. Mae'n rhaid i'r gofod rhwng y pileri fod wedi eu llenwi yn rhannol gan ddelltwaith neu ddeunyddiau addurnol eraill. Ni **ddylai’r** to fod yn rhannol agored, e.e. gwaith haearn, rhaid iddynt ddarparu, gorchudd parhaol llawn.

3. Mae'n rhaid i'r strwythur fod o leiaf 8 troedfedd mewn diamedr neu 8 troedfedd sgwâr, yn ddigon mawr ar gyfer o leiaf chwech o bobl yn ogystal â bwrdd a chadeiriau.

4. Dylai'r strwythur fod â phŵer trydan a golau.

5. Ni ddylai'r strwythur gael ei hysbysebu/ gyfeirio ato fel, galluogi cyplau i “briodi y tu allan/ cynnal Partneriaeth Sifil tu allan”

**Caiff seremonïau mewn gazebos a strwythurau gardd eraill eu cyfyngu i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi, pan fydd y tywydd yn fwy tebygol o fod yn deg. Ym mhob achos, rhaid i ystafell arall a gymeradwywyd fod ar gael i'w ddefnyddio rhag ofn byddai tywydd garw. Y Cofrestrydd Arolygol sy'n cynnal y seremoni yn unig sydd â’r disgresiwn mewn perthynas â pha mor addas yw’r amgylchiadau ar ddydd y Seremoni.**

Wrth gyflwyno cynlluniau, dylai ymgeiswyr ddangos lleoliad y gazebo mewn perthynas â'r ystafell/ ystafelloedd seremoni eraill.